Cofnodioin cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 4 Rhagfyr 2024, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones,
Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, A. R. James, K. R. Jones, B. Mellor, W. Price,
Ms V. Roberts, A. Walker ac Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Mrs H. J. Mead – Dirprwy Glerc y Dref

## 62. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr M. Blackwell, S. Feeney, Miss S. Fleming, Ms J. L. McAlpine, Ms R. Roberts, Miss S. L. Roberts a D. Simmons.

## 63. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd Clerc y Dref a oedd gan aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw un o'r eitemau busnes i'w hystyried ar yr agenda?

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 64. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 1915 | HSBC | 8.00 | Ffioedd bancio |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Yswiriant ffôn symudol |
| 1927 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 10,164.09 | Cyflogau net mis Tachwedd 2024 yn cynnwys dyfarniad cyflog wedi'i ôl-ddyddio |
| 1925 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,960.11 | Didyniadau Talu wrth Ennill mis Hydref 2024 |
| 1926 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,173.10 | Didyniadau pensiwn mis Hydref 2024 |
| 1848 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,213.33 | Swyddog Apeliadau – taliad 8 o 12 |
| 1808 | Cyngor Sir Ddinbych | 811.00 | Ardrethi annomestig y Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, Y Rhyl – taliad 8 o 10 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£18,361.61** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 295.99 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis a aeddfedodd ar 21 Tachwedd 2024 | 861.23 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£1,157.22** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 65. CAIS I ROI CYFLWYNIAD I'R CYNGOR: NATIONAL CAMPAIGN FOR EARTHDAY.ORG

Hysbysodd Clerc y Dref ei fod wedi derbyn gohebiaeth gan y sefydliad uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), yn gofyn am gyfarfod gyda'r Cyngor Tref ynghylch unrhyw ddigwyddiadau wedi'u trefnu yn y Rhyl yn 2025.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref a/neu'r Cadeirydd yn cyfarfod â Ms Grotelueschen i drafod cynigion a'i chyfeirio at Gyngor Sir Ddinbych, os oes angen.*

## 66. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – ADOLYGU DOSBARTHIADAU ETHOLIADOL, MANNAU PLEIDLEISIO A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO

Hysbysodd Clerc y Dref am dderbyn y dogfennau uchod i'r aelodau eu hystyried (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Mynegodd yr aelodau beth rhwystredigaeth gyda lleoliad rhai o'r gorsafoedd pleidleisio yn y dref, yn benodol fod Ysgol Dewi Sant ac Ysgol Llywelyn a Chanolfan Hamdden y Rhyl a Chaffi'r Gerddi Botanegol mor agos at ei gilydd a ddim y lleoliadau mwyaf cyfleus i lawer o bleidleiswyr, a oedd yn gorfod mynd o'u ffordd i fwrw eu pleidlais, sy'n creu rhwystr i'r broses.

Atgoffodd Clerc y Dref fod hon yn gŵyn rheolaidd i Gyngor Sir Ddinbych, ond yn ddelfrydol mae angen i orsafoedd pleidleisio fod ymhob ward tra'n bodloni nifer o feini prawf eraill ac mae lleoliadau addas yn brin.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn hysbysu Cyngor Sir Ddinbych am y pryderon uchod.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *gohirio'r Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb fel mater o frys.*

## 67. EITEM GAN AELOD: SGWTERI / BEICS TRYDAN

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield am gefnogaeth yr aelodau i anfon llythyr i Gyngor Sir Ddinbych a Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn am eglurhad ynghylch pwy yn union sy'n gyfrifol am orfodaeth defnyddio sgwteri a beics trydan yn anghyfrifol mewn ardaloedd i gerddwyr ac ar ffyrdd a strydoedd y Rhyl.

Roedd yr aelodau'n cytuno'n llwyr â'r Cynghorydd Butterfield ac roedd pawb wedi bod yn dyst i ddefnydd anystyriol ac anghyfrifol o'r ddau fath o gerbyd gan hysbysu am bryderon gan eu preswywlwyr.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ysgrifennu llythyr i'r ddau awdurdod i gael ateb diffiniol ynghylch gorfodaeth a gofyn i bwy bynnag sy'n meddu ar y cyfrifoldeb fod yn fwy gwyliadwrus dros gyfnod y Nadolig, pan fydd llawer rhagor o'r sgwteri a'r beics hyn yn cael eu rhoi fel anrhegion Nadolig.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *gohirio'r Rheolau Sefydlog i alluogi Clerc y Dref i ymateb fel mater o frys.*

**68. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**69. POLISI RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a gofynnodd i aelodau gyflwyno unrhyw enwebiadau arfaethedig o ran unigolyn sy'n bodloni'r meini prawf iddo erbyn dydd Llun, 9 Rhagfyr.

**70. CYMORTH I DDIGWYDDIADAU 2025**

Ymhellach i gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn awgrymu ychwanegu rhes newydd yn y gyllideb dan y pennawd Cronfa wrth gefn Digwyddiadau fel modd o reoli'r digwyddiadau a gefnogir gan y Cyngor Tref wrth symud ymlaen.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Gronfa wrth gefn Digwyddiadau a'r swm a gynigiwyd i fynd o dan y pennawd cyllideb hwnnw.*

**71. CYLLIDEB FLYNYDDOL 2025/26 / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ar gyfer Cyllideb Flynyddol 2025/26 i'w hargymell i gyfarfod y Cyngor i'w gynnal ar 18 Rhagfyr 2024, ac argymell praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad i'w argymell i gyfarfod y Cyngor ar 18 Rhagfyr 2024.*

72. **DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………..